# Canllaw i Ymgysylltu â Dioddefwyr a Goroeswyr (VSEG)

Pecyn cymorth ymarferol ar weithio gyda goroeswyr wrth ymchwilio i achosion o gamdriniaeth a chamfanteisio'n rhywiol ar blant




Yn seiliedig ar drafodaethau â chydweithwyr o bob rhan o'r maes plismona, ac wedi'i lywio gan sgyrsiau gyda 46,000 a mwy o oroeswyr camdriniaeth yn ystod plentyndod, mae'r canllaw hwn yn cynnig arweiniad syml, ymarferol i staff plismona sy'n gweithio gyda goroeswyr ar unrhyw gam o ymchwiliad CSAE.

## I bwy mae'r canllaw?

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i uwch arweinwyr ac ymarferwyr rheng flaen. Yn achos uwch-reolwyr, mae'n adnodd ymarferol i gefnogi gwasanaeth cyson o safon ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar oroeswyr. Ar gyfer swyddogion a staff rheng flaen, mae'n cynnig canllawiau gweithredol a fydd yn helpu i ategu eu hymchwiliad.

## Beth gewch chi o'r canllaw hwn

- Camau ymarferol ar gyfer cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, yn blant ac oedolion, ym mhob cam o ymchwiliad CSAE
- Arweiniad ar sut i sgwrsio a chyfathrebu â dioddefwyr a goroeswyr ym mhob cam o ymchwiliad
- Cipolwg ar brofiadau cyffredin goroeswyr a rhwystrau i riportio neu i barhau ag ymchwiliadau
- Dull sy'n cefnogi arferion ymchwilio gwell trwy leihau achosion o ymddieithrio y gellir eu hosgoi
- Strategaethau ar gyfer cydbwyso gofynion ymchwilio â lles goroeswyr

## Pam mae'n bwysig

Gall y ffordd y mae pobl yn siarad â dioddefwyr a goroeswyr, ac yn eu cefnogi nhw, gael cryn effaith ar ymddiriedaeth, hyder a'r gallu i barhau ag ymchwiliad. Gall newidiadau bach mewn iaith, cysondeb ac ymagwedd leihau'r risg o aildrawmateiddio rhywun, gall flaenoriaethu grymuso a chefnogi ymgysylltu cryfach. Oherwydd mae sut mae dioddefwr neu oroeswr yn profi'r broses gyfiawnder o bwys, ac yn llawn mor bwysig â'r canlyniad ei hun.

**Trwy ddefnyddio'r canllaw hwn, gall lluoedd helpu i leihau trawma, cryfhau ymddiriedaeth, gwella dulliau ymgysylltu a chreu profiad mwy cadarnhaol i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n llywio eu ffordd drwy'r system cyfiawnder troseddol.**

Child Sexual Exploitation Taskforce

NAPAC The National Association for People Abused in Childhood

Lawrlwythwch y canllaw PDF

6794-07/26